Olion/Traces: Creu 'subtle mob' dwyieithog ar gyfer Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Sara Huws: Swyddog Cynnwys Digidol, Amgueddfa Cymru, Alison John: Cyfarwyddwr Creadigol, yello brick a Dr Jenny Kidd: Uwch Ddarlithydd, Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau ac Astudiaethau Diwylliannol, Prifysgol Caerdydd

Yn 2017, fel rhan o brosiect partneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, yello brick a Phrifysgol Caerdydd, lansiwyd *Olion/Traces*, app symudol di-dâl y gallai pobl ei brofi ar eu pennau eu hunain neu mewn parau yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

Nid arweiniad sain mohono. Nac arweiniad i dwristiaid. Mae'n brofiad sain safle-benodol sy'n adrodd stori wrth dywys cyfranogwyr ar droed o gwmpas Sain Ffagan, gan symud rhwng ffaith a ffuglen, y gorffennol a'r presennol. Dehongliad neu 'gyfansoddiad' naratif artistig ydyw sy'n herio ymwelwyr i brofi Sain Ffagan mewn ffordd newydd.

Yn y cyflwyniad hwn fe ddisgrifir yr app yn gyntaf cyn trafod y berthynas rhwng y fersiynau Cymraeg a Saesneg, gan gynnig persbectif ar greu, datblygu a chyflwyno artistig dwyieithog. Mewn prosiectau treftadaeth ddiwylliannol ddigidol, mae'r Gymraeg yn aml yn gyfieithiad syml o'r Saesneg, ond roeddem am i Olion fod yn fwy na hynny: dynamig, chwareus ac ystyriol.

Gwybodaeth bellach a chyswllt i Lawrlwytho *Olion*.